



Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru

15 Gorffennaf 2020

Annwyl gydweithiwr

## Haf 2021

Ysgrifennais atoch ar 3 Gorffennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer haf 2020, cyfres mis Tachwedd a chynllunio ar gyfer haf 2021. Ers hynny, rydym wedi bod yn edrych ar y materion cymhleth sy'n berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau y flwyddyn nesaf, ac yn gweithio gyda CBAC i nodi'r dull gorau o weithredu yn y cyfnod ansicr hwn.

Rydym wedi gofyn i CBAC wneud addasiadau priodol i gymwysterau TGAU sydd i'w dyfarnu yn ystod haf 2021, ac rydym wedi cyhoeddi'r gofynion rheoleiddio<sup>1 2</sup> y mae'n rhaid i CBAC eu dilyn wrth wneud addasiadau.

Cynhaliodd CBAC ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda chanolfannau rhwng 3 Gorffennaf a 9 Gorffennaf, i gasglu barn ar eu cynigion ar gyfer TGAU cymeradwy. Maent wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau'r addasiadau a byddant yn cyfathrebu'r rhain cyn diwedd tymor yr haf. Nid yw hon wedi bod yn broses syml gan nad oes un addasiad sy'n addas ar gyfer pob cymhwyster, ac felly, bu'n rhaid ystyried pob cymhwyster yn unigol. Yn gyffredinol, mae'r addasiadau naill ai'n cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion ymbellhau cymdeithasol posibl neu'n symleiddio asesu er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd. Y nod wrth gyflwyno'r addasiadau hyn yw hwyluso'r trefniadau asesu i ddysgwyr a chanolfannau, gan gadw cymwysterau dibynadwy, dilys a chredadwy.

Ym mis Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi na fyddai angen i ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer unedau ym mlwyddyn 10 sefyll yr unedau hynny ym mlwyddyn 11 ac y byddai'r canlyniad TGAU yn cael ei rhagamcanu o unedau blwyddyn 11.

Roedd hwn yn gyfnod pan oedd effaith bosibl Covid-19 i mewn i'r flwyddyn nesaf yn anhysbys. Nawr, bedwar mis yn ddiweddarach, wrth ystyried addasiadau arfaethedig

<sup>1</sup> <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/gofynion-addasu-asesiadau-2021>

<sup>2</sup> <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-arbennig-cbac-addasiadau-2021>

### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 0333 077 2701



[www.cymwysteraucymru.org](http://www.cymwysteraucymru.org)

### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 0333 077 2701

CBAC ar gyfer haf 2021, rydym yn canfod bod rhai cymwysterau lle na ellir cynnal y dull hwn tra hefyd yn gwneud addasiadau ar gyfer yr haf nesaf sy'n cadw'r dilysrwydd sy'n ofynnol er mwyn dyfarnu cymwysterau. Felly, ar gyfer rhai cymwysterau, mae cynigion CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gofrestru dysgwyr ar gyfer unedau y gallent fod wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn haf 2020 er mwyn sicrhau bod digon o'r cymhwyster yn cael ei asesu yn ystod haf 2021 er mwyn i radd i gael ei dyfarnu. Caiff mwy o fanylion am y cymwysterau hyn eu hamlinellu gan CBAC, a gobeithiwn y bydd canolfannau'n deall y rhesymeg dros y newid angenrheidiol hwn yn y dull gweithredu.

Pan fydd ysgolion a cholegau yn ailagor ym mis Medi, rydym yn gwybod y bydd athrawon yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi dysgwyr fel eu bod, erbyn yr haf 2021, wedi datblygu, cyn belled ag y bo modd, yr ystod lawn o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn eu pwnc i'w galluogi i fod yn llwyddiannus a gwneud cynnydd. Ein nod yw y bydd yr addasiadau a roddir ar waith yn lleihau'r asesu ar gyfer dysgwyr ac yn rhoi mwy o amser i athrawon ddarparu cynnwys y cymhwyster.

Mae CBAC wedi ystyried addasiadau ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch ar gyfer haf 2021 o fewn yr un fframwaith rheoleiddiol â'r hyn a sefydlwyd ar gyfer TGAU, ac ar hyn o bryd maen nhw'n cynnal ymarfer ymgysylltu tebyg gyda chanolfannau. Rydym yn annog staff mewn canolfannau i ymateb i'r ymgysylltiad hwn. Mae'r addasiadau arfaethedig i Safon Uwch ar raddfa lai nag ar gyfer TGAU. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen gwneud rhai addasiadau i gynnwys rheolau pellhau cymdeithasol posibl ac i wneud trefniadau asesu yn fwy cymesur lle bo hynny'n bosibl ac nad yw'n taseilio dilysrwydd y cymhwyster i symud ymlaen i Addysg Uwch. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n fuan ynglŷn â chynlluniau ar gyfer cymwysterau UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Bydd cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw addasiadau ar gyfer asesiadau o fis Medi 2020 ymlaen. Rydym wedi cyhoeddi [datganiad](#) ar y dull arfaethedig o wneud addasiadau i gymwysterau galwedigaethol a byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth cyn gynted â phosibl. Rydym yn gweithio'n agos gydag Ofqual i sicrhau y bydd cyrff dyfarnu'n dilyn set gyffredin o egwyddorion.

Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer o wybodaeth i ganolfannau gadw golwg arni felly byddwn yn parhau i ddiweddarau'r adran Coronafeirws (Covid-19) ar ein gwefan gyda gwybodaeth yn ymwneud ag arholiadau haf 2020, Tachwedd 2020 a haf 2021.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol i chi ei chael yn y dyfodol, cysylltwch ag [enquiries@qualificationswales.org](mailto:enquiries@qualificationswales.org).

Yn gywir



**Philip Blaker**

**Prif Weithredwr**